# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 30 Tachwedd 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.James** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, J.Henton, R.G.Jones, C.Lewis, S.Paddison, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds a/ac A.J.Richards |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Thomas, A.Jarrett, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, N.Blackmore, R.Bowen, S.Davies, A.Hinder, D.Holder-Phillips, J.Merrifield, M.Shaw, P.Walker, G.White, K.Windsor-Brown, J.Woodman-Ralph a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn a/ac D.M.Peters |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr wybodaeth a'r cyngor canlynol i'r Pwyllgor ynghylch buddiannau a rhagderfyniad, a oedd yn ymwneud yn benodol ag adroddiad Cynllun Gwella Strategol yr Ysgol a oedd wedi'i gynnwys ar agenda'r Cabinet:

- Roedd y cynnig yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn benderfyniad newydd y bydd angen i'r Aelodau ei wneud; ni fydd y ffaith y gall yr Aelodau fod wedi pleidleisio mewn ffordd

benodol mewn cyfarfod blaenorol fod gyfystyr â rhagderfyniad, ar yr amod bod Aelodau'n cadw meddwl agored mewn perthynas â'r cyfarfod newydd hwn.

- Wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw fusnes y cyngor, rhaid i Aelodau wneud hynny gyda meddwl agored ac ystyried yr holl wybodaeth o'u blaenau yn wrthrychol, gan roi sylw dyladwy i gyngor y Swyddogion. Yn ystod y broses o wneud penderfyniadau, mae'n rhaid i'r Aelodau ymddwyn yn deg ac er budd y cyhoedd. Roedd yn ofynnol i'r Aelodau wneud eu penderfyniadau ar sail y ffeithiau o'u blaenau, ac ni ddylent fod wedi gwneud penderfyniad cyn y cyfarfod.
- Os yw'r Aelodau'n ystyried eu bod wedi dod i farn neu benderfyniad sefydlog mewn perthynas â’r mater hwn, ac nad oeddent yn gallu neu neu nad oeddent yn fodlon ystyried unrhyw sylwadau neu gyngor arall, neu gall aelod o’r cyhoedd deimlo wrth ystyried yr holl faterion fod risg yno, mae'n debygol y byddai'r Aelodau wedi penderfynu ar y mater ymlaen llaw. Yn unol â hynny, os yw Aelodau'n teimlo eu bod wedi rhagderfynu eu safbwynt, ni ddylent fod yn cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais. Gallai rhagderfynu annilysu'r penderfyniad a gallai arwain at ddwyn achos yn erbyn y cyngor a gallai hefyd fod yn gyfystyr â thorri Côd Ymddygiad yr Aelodau. Dyma’r cyfle i’r Aelodau ddatgan hynny.
- Roedd gan yr Aelodau hawl i gael barn ragarweiniol ar fater penodol cyn cyfarfod (a elwir fel arall yn rhagdueddiad) cyn belled â bod yr Aelodau’n cadw meddwl agored a’u bod yn barod i ystyried rhinweddau’r holl ddadleuon a’r pwyntiau a wnaed ynghylch y mater dan sylw cyn dod i benderfyniad.
- Dylid nodi bod y penderfyniad dan sylw yn un i'r Aelodau benderfynu yn ei gylch.
- Er mwyn eglurder, roedd ymrwymiadau maniffesto a datganiadau polisi a oedd yn gyson â pharodrwydd i ystyried a phwyso a mesur ffactorau perthnasol wrth wneud y penderfyniad terfynol yn enghreifftiau o rhagdueddiad dilys, nid rhagderfyniad. Yn ogystal â hyn, roedd safbwyntiau a fynegwyd yn flaenorol ar faterion sy'n codi i'w penderfynu mewn digwyddiadau arferol yn cael eu darparu fel mater o drefn. Roedd yr Aelodau'n gallu mynd i’r afael â'r penderfyniad penodol hwn gyda meddwl agored.

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Llewelyn | Eitem 6 ar Agenda'r Cabinet - Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd J Henton | Eitem 6 ar Agenda'r Cabinet - Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |

## 3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y Pwyllgor graffu ar yr eitem ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg

Darparodd yr adroddiad a ddosbarthwyd fanylion ynghylch y cynnig ar gyfer ymgynghoriad newydd ynghylch y cynnig i ad-drefnu ysgolion yng Nghwm Tawe; y cynnig oedd i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed â chanolfan cymorth dysgu arbenigol, mewn adeiladau newydd i ddarparu ar gyfer disgyblion o ddalgylchoedd presennol ysgolion cynradd yr Alltwen, Godre’r-graig a Llangiwg.

Eglurwyd bod Cabinet y weinyddiaeth flaenorol wedi cymeradwyo'r penderfyniad blaenorol mewn perthynas â'r mater hwn; fodd bynnag, heriwyd y penderfyniad ers hynny a chynhaliwyd adolygiad barnwrol a chafodd y penderfyniad ei wrthdroi. Hysbyswyd yr Aelodau fod y weinyddiaeth newydd wedi ymrwymo i adolygu'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r cynnig i ad-drefnu ysgolion Cwm Tawe, a

oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddechrau ymgynghoriad newydd ar gyfer y cynnig.

Pe bai'r Aelodau'n cymeradwyo'r argymhelliad fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, dywedodd Swyddogion y byddent yn annog aelodau'r cymunedau sydd â diddordeb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad er mwyn mynegi eu barn.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfranogaeth y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles yn y broses hon, a swyddogaeth y Cydbwyllgorau Craffu. Dywedodd y Prif Weithredwr mai mater i'r Aelodau Craffu oedd penderfynu sut mae craffu yn cyflawni ei swyddogaethau; trefnwyd cyfarfod gyda Chadeiryddion Craffu i'w hatgoffa o'u darpariaethau o fewn y Cyfansoddiad, sy'n cynnwys galw cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Craffu er mwyn i Aelodau Etholedig eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgor penodol. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth fanylach ag Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles mewn perthynas â'r mater hwn, os oeddent yn teimlo ei bod yn bwysig iddynt fod yn bresennol pan fydd adroddiadau yn ymwneud â'r cynnig hwn yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol i Bwyllgor Craffu'r Cabinet.

Holodd yr Aelodau a fyddai cyfarfodydd cyhoeddus yn rhan o'r broses ymgynghori; soniwyd nad oedd y weinyddiaeth flaenorol yn gallu cynnal cyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol ar y cynnig hwn oherwydd pandemig COVID-19. Esboniodd Swyddogion y byddent yn dilyn y gofynion ymgynghori yn ôl yr angen, a chadarnhawyd y byddai elfennau o'r ymgynghoriad yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Gofynnwyd i Swyddogion egluro canlyniadau unrhyw newidiadau posib i'r prif gynnig, pe bai'r cyfnod ymgynghori yn mynd yn ei flaen a bod yr adborth yn rhoi rheswm da dros newid y cynnig hwnnw. Gofynnwyd hefyd, pe bai achos busnes newydd yn cael ei lunio ar gyfer unrhyw ddewisiadau amgen a allai ymddangos yn ymarferol, pa mor hir y byddai’r broses o lunio’r achos busnes yn ei gymryd a phryd y byddai cyfle arall i gyflwyno’r achos busnes hwnnw i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid. Nodwyd pe bai'r Cabinet yn penderfynu peidio â symud ymlaen â'r cynnig a ymgynghorwyd arno, tybir, bryd hynny bod opsiwn a ffefrir ar gael i'w ddilyn o ran buddsoddiad; ni fyddai'r £22.5 miliwn sydd ar gael ar hyn o bryd i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer y cynnig presennol ar gael mwyach. Cadarnhawyd y byddai angen i'r cyngor gyflwyno achos busnes newydd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg Band C; gellid dechrau'r broses newydd

hon yn syth ar ôl i'r broses gynigion bresennol ddod i ben yn gyfan gwbl. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith y byddai'n cymryd misoedd i ysgrifennu'r model busnes newydd gan ei bod yn broses fanwl a chymhleth; unwaith y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, byddent yn cymryd ychydig fisoedd i ystyried y cynnig, fodd bynnag ni fyddai unrhyw sicrwydd y byddent yn ei gefnogi. Soniwyd hefyd y byddai'n ofynnol i ddisgyblion Ysgol Gynradd Godre'r-graig aros mewn llety dros dro am gyfnod hwy.

Cadarnhaodd Swyddogion y byddai angen achos busnes cadarn ar gyfer unrhyw fuddsoddiad cyfalaf drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt). Soniwyd bod y broses ar gyfer cyflwyno achosion busnes drwy Fodel Busnes 5 Achos Trysorlys Ei Fawrhydi yn fformat llym a bod bodloni'r profion a oedd ynddo yn ofynnol.

Trafododd y Pwyllgor y rhesymau pam y byddai angen ymgynghori eto ar y cynnig.
Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod y weinyddiaeth newydd wedi ymrwymo i adolygu'r mater hwn yn seiliedig ar y farn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol, ac yn seiliedig ar yr achos cyfreithiol yn erbyn y penderfyniad a wnaed yn flaenorol; pe bai'r cyfnod ymgynghori yn cael ei gymeradwyo, bydd yr holl ymatebion, y canlyniadau a'r adborth o'r ymgynghoriad newydd yn cael eu hystyried yn unol â hynny, ynghyd â chyngor gan Swyddogion y cyngor.

Rhoddodd yr adolygiad barnwrol yr hawl i'r cyngor apelio yn erbyn penderfyniad y llys; Holodd yr Aelodau pwy wnaeth y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r broses apêl. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y penderfyniad wedi methu o'r cychwyn cyntaf am nad oedd Asesiad Effaith o'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Dywedwyd bod amserlen dynn iawn ar gyfer cyflwyno apêl wrth ymdrin ag adolygiadau barnwrol; penderfynodd y cyngor a ddylid cyflwyno apêl drwy ei broses Cam Gweithredu Brys.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r côd trefniadaeth ysgolion; o fewn hwn roedd dau amlinelliad gwahanol o fanylebau ymgynghori, un o 42 diwrnod ac un arall o 28 niwrnod. Gofynnodd yr Aelodau a allai Swyddogion ddarparu rhagor o wybodaeth am y manylebau hyn. Eglurwyd bod y 42 diwrnod yn cyfeirio at y broses o'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus, a oedd yn gorfod para o leiaf 42 diwrnod (roedd yr argymhelliad yn yr

adroddiad a ddosbarthwyd yn ceisio dechrau ar y cam hwn). Pe bai'r Cabinet o blaid cymeradwyo'r argymhelliad, nodwyd y byddai'r ymgynghoriad wedyn yn cael ei gynnal; yn dilyn hyn, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn manylu ar adborth yr ymgynghoriad ac ymateb Swyddogion i'r adborth hwnnw. Amlygwyd pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai Swyddogion wedyn yn gofyn am ganiatâd i symud ymlaen i'r cam nesaf sef y cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau statudol; roedd yn rhaid i'r cyfnod hwn bara 28 niwrnod yn union. Soniwyd pe bai'r cyhoedd am i'w gwrthwynebiadau i'r ymgynghoriad gael eu cofnodi, byddai angen iddynt roi sylwadau ar y cam hwn er mwyn i'w sylwadau gael eu prosesu (hyd yn oed os oeddent wedi rhoi eu hadborth yn flaenorol yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus).

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch ymgynghori ar y cynigion blaenorol, cyn cynnal adolygiad ehangach neu asesiad â thystiolaeth o ddewisiadau eraill. Hysbyswyd yr Aelodau fod y côd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion ystyried opsiynau amrywiol ar gyfer achos busnes; unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, rhaid iddynt wedyn benderfynu pa gynnig fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Amlygwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys 14 o opsiynau eraill a ystyriwyd, fod bynnag dewiswyd peidio â'u dilyn fel yr opsiwn a ffefrir; roedd y cyfnod ymgynghori yn canolbwyntio ar archwilio'r holl opsiynau ynghylch darparu addysg yng Nghwm Tawe, felly anogwyd y cyhoedd i fynegi eu barn, darparu syniadau eraill a/neu fynegi'r opsiwn a ffefrir ganddynt. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai rhan o'r adroddiad ymgynghori, yr oedd angen ei gyflwyno i'r Pwyllgor, yn nodi unrhyw sylwadau, syniadau a/neu broblemau; gallai hyn o bosib arwain at newid y cynnig. Soniwyd bod y cam ymgynghori'n gyfnod ffurfiannol, ac ni fyddai unrhyw benderfyniad ar y cynnig yn cael ei wneud yn ystod y cam hwn.

Holodd yr Aelodau pam y tynnwyd Ysgol Gynradd Rhydyfro o'r cynllun gwreiddiol; roedd yr ysgol wedi'i henwi'n flaenorol yn y ddogfennaeth. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y broses o gyflwyno achos busnes amlinellol i Lywodraeth Cymru; pe byddent yn cymeradwyo'r achos busnes amlinellol, roedd Swyddogion wedyn yn gallu dechrau ar y gwaith manwl mewn perthynas â'r cynigion. Nodwyd, wrth weithio ar y cynigion ar gyfer ysgolion Cwm Tawe i ddechrau, ei fod wedi dechrau fel cynnig ar gyfer ysgol 3 - 16 oed gan gynnwys Cwm Tawe; yn dilyn rhywfaint o waith ymgynghori cychwynnol, cyn y broses ddiwethaf, gollyngodd Swyddogion y cynnig ar gyfer yr ysgol 3-16 oed a phenderfynwyd ar gadw statws cynradd yn unig. Un o'r ffactorau a arweiniodd at hyn

oedd maint posib yr ysgol; Roedd yn ofynnol i Swyddogion gymryd safbwynt proffesiynol o ran beth oedd maint gorau posib ar gyfer ysgol mewn ardal benodol, a byddai cynnwys disgyblion Ysgol Gynradd Rhydyfro wedi golygu y byddai'r ysgol sy'n rhy fawr.

Gofynnwyd a oedd unrhyw gyfyngiadau ynghylch dyddiad dechrau'r cyfnod ymgynghori; roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i gasglu data ystyrlon o'r ymgynghoriad, a allai fod yn anodd ei gyflawni pe bai'n cael ei gynnal dros gyfnod y Nadolig. Nodwyd pryderon Swyddogion ynghylch gohirio dyddiad dechrau'r ymgynghoriad, a'r ffaith y byddai'n cael effaith ar ddyddiad gweithredu'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo ar ddiwedd y broses; roedd amserlen dynn iawn oherwydd prosesau cynllunio, yn fwy penodol, roedd yn rhaid cynnal rhai o'r arolygon ar adegau penodol o'r flwyddyn, a gallai gohirio'r ymgynghoriad am fis olygu y byddai'n rhaid gohirio'r ysgol am flwyddyn gyfan.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â'r adolygiad barnwrol, ac a gafodd y ddarpariaeth Gymraeg ei hystyried ai peidio ar adeg yr ymgynghoriad cychwynnol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mai un o'r seiliau dros herio oedd nad oedd dogfen Asesiad Effaith y Gymraeg wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020; roedd darpariaeth yn y côd trefniadaeth ysgolion a oedd yn nodi lle gallai ysgolion gael eu heffeithio gan gynnig, byddai angen cynnwys Asesiad Effaith y Gymraeg fel rhan o'r ddogfennaeth. Ychwanegwyd, pan wnaed y penderfyniad yn flaenorol, bod dogfen Asesiad Effaith y Gymraeg wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses benderfynu, ac fe'i hystyriwyd ynghyd â'r prif adroddiad; fodd bynnag, edrychodd yr adolygiad barnwrol ar a ddylai honno fod wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori pan gafodd ei chyhoeddi i'r cyhoedd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y diwygiad fel a ganlyn:

Bod yr argymhelliad yn cael ei ddiwygio i newid dyddiad dechrau'r cyfnod ymgynghori o 5 Rhagfyr 2022 i'r dyddiad dechrau newydd o 9 Ionawr 2023, gyda'r cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod yn dilyn y dyddiad hwnnw.

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion diwygiedig i'w hystyried gan y Cabinet.

4. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater sydd wedi'i gynnwys yng Nghofnod Rhif 5 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu codi fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol 2001 rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rheswm dros y mater brys:

Oherwydd yr elfen amser.

## 5. PWLL NOFIO PONTARDAWE - GWAITH BRYS

Rhoddwyd adroddiad i'r Aelodau a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer dyrannu cyllid ar gyfer gwaith brys i'w wneud ym mhwll nofio Pontardawe.

Amlygodd yr adroddiad a ddosbarthwyd fod contractwyr ARUP wedi'u comisiynu i gynnal adolygiad o adeilad pwll nofio Pontardawe. Gofynnwyd i Swyddogion a allent roi manylion ynghylch costau'r arolwg cyflwr a gynhaliwyd gan ARUP. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes nad oedd yr wybodaeth ganddynt wrth law, fodd bynnag, byddai'n gallu darparu'r costau i'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth o ran natur y gwaith y bwriedir ei wneud ar y pwll nofio. Nodwyd bod y gwaith a restrwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn waith dros dro i raddau helaeth ac yn opsiwn tymor byr er mwyn cadw'r cyfleuster ar agor; bydd y gwaith adfer a wneir yn ddigonol am gyfnod o ddwy flynedd ar y mwyaf, ac ar ôl y cyfnod hwn dau ddewis yn unig fydd i benderfynu rhyngddynt. Y dewis cyntaf a soniwyd amdano oedd gwaith adnewyddu sylweddol, yr oedd ei gost yn debygol o fod yn fwy na gwerth yr ased; a'r ail ddewis fyddai gosod pwll nofio newydd yn ei le.

Gofynnwyd a oedd Swyddogion yn ceisio cyllid ar gyfer pwll nofio newydd. Eglurwyd nad oedd Swyddogion yn ymwybodol o unrhyw grant a fyddai'n ariannu pwll nofio newydd ar hyn o bryd; Nodwyd bod terfyn cronfa gyfalaf Chwaraeon Cymru tua £50,000, ac ni fyddai hyn yn talu am y costau llawn ariannu pwll nofio newydd. Cytunodd Swyddogion i wneud ymholiadau i'r cwestiwn hwn, a byddent yn hysbysu'r Aelodau os oedd unrhyw ffrydiau cyllido newydd ar gael.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai'r pwll nofio yn ailagor cyn gynted â phosib at ddefnydd y cyhoedd. Amlygwyd bod angen gwneud y gwaith adfer er mwyn ailagor y pwll nofio a chynnal y cyfleuster. Roedd Swyddogion wedi derbyn sicrwydd gan y

contractwr y byddai'n cymryd 3 wythnos i wneud y gwaith adfer; fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen ar gyfer y gwaith cynllunio a dylunio, a byddai cyfnod y Nadolig hefyd yn dod cyn ailagor y pwll. Soniwyd mai’r dyddiad ailagor arfaethedig oedd diwedd mis Ionawr 2023.

Mynegwyd pryderon ynghylch graddau’r dirywiad yn yr adeiledd, a bod argymhellion o adroddiad 2014 ar bwll nofio Pontardawe nad oeddent wedi'u gweithredu. Eglurodd y Prif Weithredwr fod gan y cyngor isadeiledd mawr a chronfeydd annigonol i allu cynnal yr holl adeileddau hynny i'r safon a ffefrir; dyma'r sefyllfa yn gyffredinol ers nifer o flynyddoedd. Nodwyd pan fyddai'r cyngor yn derbyn arian grant ei fod yn cael ei gyfeirio gan amlaf at isadeiledd newydd; nid oedd digon o gyllid buddsoddi ar gael i fuddsoddi yn yr adeileddau presennol, felly roedd dirywiad mewn llawer o'r adeileddau hynny. O ran manylion pwll nofio Pontardawe, cadarnhaodd Swyddogion y byddent yn ymchwilio i weld pam y mae bwlch rhwng yr archwiliadau. Awgrymwyd y dylai Pwyllgor Craffu Gwasanaethau’r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun ychwanegu'r mater hwn at ei Flaenraglen Waith, gan fod hon yn broblem ar draws llawer o isadeileddau presennol y cyngor; byddai'n fuddiol i Aelodau'r Pwyllgor hwn gael cipolwg gwell o'r materion cyfredol a gwneud rhai argymhellion o bosib.

Nodwyd bod nifer o grwpiau ffitrwydd sy'n defnyddio pwll nofio Pontardawe, fel y *Celtic Dolphins*, a oedd wedi ymrwymo i gymhwyso a symud ymlaen â'u camp ddewisol. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i drefniadau i gynorthwyo'r grwpiau hyn yn ystod y cyfnod y bydd y pwll nofio ar gau. Dywedodd Swyddogion eu bod wedi e-bostio Prif Weithredwr Celtic Leisure ynghylch y mater hwn, a oedd wedi cadarnhau eu bod yn ystyried rhoi lle i’r clwb nofio mewn sesiwn yn gynnar yn y bore yng Nghanolfan Hamdden Castell-nedd, drwy neilltuo 2 neu 3 o’r lonydd nofio ar ei gyfer. Soniwyd y byddai'r pwll nofio wedi bod yn cau ym mis Rhagfyr oherwydd cyfnod y Nadolig, fodd bynnag roedd Celtic Leisure wrthi'n ystyried sut y gallent ddarparu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth ymhellach; Byddai'r Aelodau'n cael gwybod yn unol â hynny, os byddai unrhyw wybodaeth bellach yn dod i law ar y mater hwn.

Tynnodd Swyddogion sylw at yr adborth cadarnhaol yr oeddent wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r ymateb gan staff pwll nofio Pontardawe; roedd y Rheolwr a'r tîm ar ddyletswydd wedi ymdrin â'r mater hwn yn gadarnhaol ac yn broffesiynol iawn.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH 2022/23

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**